


Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Chapel Street,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 21 Gorffennaf 2026

Dyddiad cyhoeddi: 21 Hydref 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-509-3

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	Ansawdd Profiad y Claf	9
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C – Cynllun gwella	23



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Chapel Street, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 21 Gorffennaf 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac un Adolygydd Cymheiriaid Clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 10 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd pump gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn, gyda'r holl ymatebwyr yn dweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Dywedodd y cleifion fod y staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar, a gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Roedd ystod eang o wybodaeth hybu iechyd ar gael, roedd ffioedd triniaethau a gwybodaeth i gleifion yn cael eu harddangos yn glir a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth. Roedd y practis yn cynnig dewis amrywiol o apwyntiadau, gan gynnwys apwyntiadau brys, ac roedd yn dangos ymrwymiad i gefnogi anghenion unigol y cleifion drwy addasiadau rhesymol, gwybodaeth ddwyieithog a fformatau cyfathrebu amgen.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos gwybodaeth gyswllt y tu allan i oriau clir ar gyfer cleifion preifat sy'n ceisio cyngor neu driniaeth y tu allan i oriau agor y practis.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd ac adnoddau addysg iechyd y geg i gleifion, gan gynnwys sesiynau addysgol iechyd y geg ar gyfer plant yn ystod gwyliau ysgol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith yn y practis er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd systemau addas ar waith ar gyfer rheoli risg, atal a rheoli heintiau, rheoli meddyginiaethau, diogelu a pharatoadau ar gyfer achosion brys. Roedd y practis yn lân, yn drefnus ac mewn cyflwr da ar y cyfan. Nodwyd bod materion cynnal a chadw'r adeilad eisoes wedi'u codi i'r tîm cyfleusterau ac roedd y practis yn aros am ganlyniad.

Roedd cyfarpar clinigol yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol, ac roedd y staff yn dilyn canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol perthnasol wrth ddarparu gofal. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel ac roedd gan y practis drefniadau ar waith i gefnogi parhad y gwasanaeth a mynediad amserol at ofal.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer bach o hepgoriadau yng nghofnodion y cleifion. Nid oedd dewis iaith y claf yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion, roedd cofnodion archwiliad periodontol sylfaenol ar goll, ac nid oedd un o'r cofnodion yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â dogfennaeth sgrinio am ganser, gwybodaeth am radiograffau a chael cydsyniad ar sail gwybodaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ymchwilio i leithder yr amheuir ei fod yn dod i mewn ac ymdrin ag ef er mwyn cadw'r safle mewn cyflwr da.
- Sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau'n llawn ac yn gyson yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yn dangos trefniadau atal a rheoli heintiau effeithiol, gan gynnwys prosesau dihalogi priodol a hyfforddiant priodol i'r staff
- Roedd yn cynnal systemau cadarn ar gyfer rheoli meddyginiaethau, diogelu a pharatoadau ar gyfer achosion meddygol brys.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn dangos trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth effeithiol, gyda chymorth strwythurau rheoli clir a fframwaith corfforaethol ehangach Rodericks Dental Partners. Siaradodd y staff yn gadarnhaol am y cymorth a ddarperir gan y rheolwyr a gwnaethant ddisgrifio diwylliant o gyfathrebu a gwaith tîm agored. Roedd prosesau recriwtio, sefydlu a hyfforddiant wedi'u sefydlu'n dda, ac roedd systemau ar waith i gefnogi llywodraethu gwybodaeth, adborth gan gleifion, rheoli cwynion a goruchwyllo risg. Dangosodd y practis ymrwymiad hefyd i wella ansawdd drwy raglen o archwiliadau clinigol a gweithredol, gyda gwersi'n cael eu rhannu'n lleol ac ar draws y sefydliad ehangach.

Fodd bynnag, nodwyd cyfleoedd i gryfhau effeithiolrwydd gweithgareddau archwilio dilynol, drwy ganolbwyntio ar feysydd y mae angen eu gwella i roi mwy o sicrwydd y bu'r camau gweithredu a gymerwyd yn llwyddiannus.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnal trefniadau llywodraethu clir â chyfarfodydd staff rheolaidd, systemau cyfathrebu effeithiol a chymorth rheoli hygyrch.
- Cyflawnwyd lefelau cydymffurfiaeth da mewn hyfforddiant gorfodol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd pob un o'r ymatebion i holiadur AGIC yn gadarnhaol. Gwnaethom ofyn i'r cleifion am eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y lleoliad. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Staff cyfeillgar a hyfryd, sy'n gwenu drwy'r amser."

"Cyfeillgar."

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod amrywiaeth eang o daflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ardal aros. Rhoddodd y bwrdd iechyd lleol wybodaeth i'r practis a rhai deunyddiau hybu iechyd, gan gynnwys cyngor ar frwsio dannedd, taenu fflworid, bwyta'n iach, rhoi'r gorau i smygu, iechyd y galon, ymwybyddiaeth o alcohol, pwysedd gwaed, ymwybyddiaeth o sepsis a brechu rhag y ffliw. Roedd taflenni gan wasanaethau iechyd a llesiant lleol, gan gynnwys gofal llygaid, podiatreg a darparwyr therapi tylino, hefyd ar gael i'r cleifion fynd gyda nhw. Gwnaethom hefyd weld cwpwrdd arddangos a oedd yn dangos cynnwys siwgr bwydydd a diodydd cyffredin i gefnogi addysg ar iechyd y geg.

Roedd ffolder gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ystafell aros a oedd yn cynnwys datganiad o ddiben, gwybodaeth am yr ystod o driniaethau a ffioedd. Roedd ffioedd triniaethau hefyd yn cael eu harddangos yn ddwyieithog yn y man aros ac ar wefan y practis. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y datganiad o ddiben yn hygyrch drwy wefan y practis ar adeg yr arolygiad. Codwyd y mater hwn gyda rheolwr y practis a chafodd y mater ei ddatrys yn brydlon yn ystod yr arolygiad.

Roedd gwybodaeth am bolisïau canslo a methu â mynychu'r practis hefyd ar gael i'r cleifion.

Roedd arwyddion wedi'u harddangos yn Gymraeg a Saesneg yn gofyn i'r cleifion roi gwybod i'r practis am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol er mwyn helpu i sicrhau gofal priodol a diogel.

Roedd enwau aelodau presennol y tîm deintyddol, a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos yn glir ar y bwrdd gwybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis. Roedd gwybodaeth ar gael yn cynghori cleifion y GIG i gysylltu â GIG 111 ar gyfer gofal deintyddol brys y tu allan i oriau agor y practis. Fodd bynnag,

gwnaethom nodi nad oedd gwybodaeth y tu allan i oriau cyfatebol ar gyfer cleifion preifat yn cael ei harddangos.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig arddangos gwybodaeth gyswllt i gleifion preifat sy'n ceisio gofal y tu allan i oriau agor y practis.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r cleifion drwy gydol yr arolygiad. Roedd lleoedd preifat ar gael ar gyfer trafodaethau cyfrinachol, ac roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau er mwyn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi llofnodi cytundebau cyfrinachedd fel rhan o'u cyfnod sefydlu ac roedd y rhain wedi'u hadnewyddu ym mis Hydref 2025.

Roedd naw egwyddor foesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn Gymraeg a Saesneg yn yr ardaloedd aros ac yn ystafell y staff, lle roeddent yn hygyrch iawn i'r cleifion a'r staff.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Cytunodd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt, gan gynnwys y risgiau a'r manteision cysylltiedig. Cadarnhaodd pob un o'r ymatebwyr bod eu hanes meddygol wedi'i wirio cyn y driniaeth a bod y staff wedi esbonio'r triniaethau drwy gydol eu hapwyntiad, wedi gwrandao ar eu pryderon ac wedi ateb unrhyw gwestiynau a oedd ganddynt. Nododd pob ymatebydd hefyd eu bod wedi cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu triniaeth i'r graddau yr oeddent yn dymuno.

Amserol

Gofal amserol

Dywedwyd wrthym y gallai'r cleifion drefnu apwyntiad ar-lein, dros y ffôn neu'n bersonol yn y practis. Roedd y practis yn cadw apwyntiadau brys o 30 munud cyn cinio bob dydd a, lle bo angen, byddai'n cyfeirio cleifion at GIG 111 neu wasanaethau gofal brys priodol eraill. Roedd y cleifion hefyd yn gallu anfon ffotograffau at y practis i'r tîm clinigol frysbenno cyn eu hapwyntiad. Roedd cymorth ychwanegol ar gael gan bractisau eraill yn y grŵp corfforaethol pe bai ei gapasiti apwyntiadau brys yn cael ei gyrraedd.

Dywedwyd wrthym fod cleifion preifat yn arfer aros hyd at 10 diwrnod am apwyntiad. Roedd y practis yn defnyddio system 'dyddiadur clyfar' ar gyfer apwyntiadau'r GIG, gan alluogi apwyntiadau archwilio a thrin i gael eu trefnu ymlaen llaw yn effeithlon a chefnogi gwaith rheoli llif gwaith effeithiol.

Roedd y cleifion yn cael gwybod am unrhyw achosion o oedi ymlaen llaw neu wrth

gyrraedd y practis. Dywedwyd wrthym y byddai clinigwyr yn addasu eu diwrnod gwaith lle bo angen er mwyn lleihau'r achosion o darfu ar gleifion. Roedd y practis hefyd yn cadw rhestr ar gyfer apwyntiadau wedi'u canslo er mwyn sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o apwyntiadau ar gael, ac fel arfer, roedd cleifion yn cael cynnig eu hapwyntiad nesaf cyn gadael y practis er mwyn cefnogi parhad gofal ac apwyntiadau galw nôl yn y dyfodol.

Roedd y practis yn darparu ar gyfer apwyntiadau ar ôl ysgol ac yn cynnal sesiynau iechyd y geg i blant yn ystod gwyliau'r ysgol, y gwnaethom nodi eu bod yn fenter gadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys addysg iechyd y geg, arddangosiadau brwsio dannedd a thaenu farnais fflworid i hybu iechyd y geg da.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd gwybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos yn Gymraeg a Saesneg drwy'r practis. Roedd gwybodaeth hawdd ei deall ar gael yn y ffolder gwybodaeth i gleifion yn yr ardal aros, a dywedwyd wrthym y gallai gwybodaeth gael ei darparu mewn fformatau eraill ar gais er mwyn diwallu anghenion cyfathrebu cleifion unigol.

Gwnaeth y practis gydnabod bod ei allu i ddarparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn gyfyngedig ar hyn o bryd, gan nad oedd yr un aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis yn gallu siarad Cymraeg. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cymryd diddordeb mewn hyfforddiant yn y Gymraeg. Roedd gwybodaeth ar gael yn ddwyieithog drwy'r practis, ac roedd trefniadau ar waith i atgyfeirio cleifion at weithiwy'r deintyddol proffesiynol sy'n siarad Cymraeg mewn practis lleol arall yn y grŵp corfforaethol pe byddent yn dymuno cael gofal yn Gymraeg. Roedd gwasanaethau llinell iaith ar gael i'r practis eu defnyddio.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Roedd rhaglen cymorth 24 awr i gyflogeion hefyd ar gael i'r staff.

Roedd gan y safle nodweddion i gefnogi hygrychedd, gan gynnwys mynediad drwy ramp i'r adeilad, mynediad gwastad i ddeintyddfeydd y llawr gwaelod a thoiled hygrych.

Dywedwyd wrthym y gallai addasiadau rhesymol gael eu gwneud i ddarparu ar gyfer anghenion unigol y cleifion, fel dyrannu apwyntiadau yn neintyddfa'r llawr gwaelod ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn neu drefnu apwyntiadau ar adegau tawelach o'r dydd. Rhoddodd y staff wybod i ni fod y gofynion hyn yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion er mwyn cefnogi apwyntiadau yn y dyfodol.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y practis wedi gwneud addasiadau rhesymol i gefnogi

aelod o'r staff gyda chyflwr iechyd, gan ei alluogi i barhau â'i rôl. Roedd hyn yn dangos ymrwymiad y practis i hyrwyddo cydraddoldeb a chefnogi llesiant y staff.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod amgylchedd y practis yn groesawgar, yn lân, yn drefnus ac yn daclus ac roedd yr ardal aros yn fawr ac yn addas ar gyfer maint y practis. Roedd gan y staff ystafell loceri ar wahân i'w hystafell egwyl er mwyn storio eitemau personol.

Gwelsom fod prif fynedfa'r practis yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd drws ochr hefyd, a oedd yn gweithredu fel allanfa frys i'r brif stryd gerllaw. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi nad oedd yr arwyddion a oedd yn cyfeirio cleifion at y brif fynedfa i'w gweld yn glir, gan eu bod yn cael eu harddangos ar ffenestr nesaf at y drws, yn hytrach nag ar y drws ei hun. Aethpwyd i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad drwy symud yr arwydd i ochr allanol y drws er mwyn rhoi cyfeiriad cliriach i'r cleifion a oedd yn mynd i'r practis.

Roedd gan y practis ddeintyddfeydd ar lawr gwaelod a llawr cyntaf y safle. Ar y llawr cyntaf, gwnaethom nodi bod angen trwsio'r wal ar ardal y landin i fyny'r grisiau. Roedd papur wal yn dod oddi ar y wal, ac roedd arwyddion fod lleithder yn dod i mewn o ochr gyffiniol yr adeilad teras. Er nad oedd hyn yn cael effaith ar ofal uniongyrchol cleifion, roedd yn effeithio ar gyflwr cyffredinol y safle a gallai waethygu ymhellach os nad ymdrinnir â'r broblem. Cawsom wybod bod y practis yn y broses o gael dyfynbrisiau i gadarnhau hyd a lled unrhyw waith adfer sy'n ofynnol ac i hwyluso atgyweiriadau angenrheidiol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff achos y lleithder a amheuir ei ymchwilio iddo ac y caiff gwaith adfer priodol ei gyflawni i gadw'r safle mewn cyflwr da.

Gwelsom gofnodion diogelwch nwy blynyddol, arolygiad trydanol bob pum mlynedd a chofnodion y Profion Offer Cludadwy, yr oedd pob un ohonynt yn gyfredol. Roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy wedi'u harddangos ar gyfer y staff ac roedd tystysgrifau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a chyflogwr cyfredol i'w gweld yn ardaloedd y cleifion. Roedd asesiad risg tân wedi'i gwblhau'n ddiweddar, a gwelsom dystiolaeth bod cyfarpar diogelwch tân yn cael ei wasanaethu bob blwyddyn. Roedd arwyddion allanfeydd tân, arwyddion dim smygu a chyfarwyddiadau ar beth i'w wneud pe bai tân i'w gweld yn amlwg ym mhob rhan o'r safle.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau yn cefnogi mesurau atal a rheoli heintiau a dihalogi. Roedd amserlenni a chofnodion glanhau yn profi bod prosesau glanhau cynhwysfawr yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Roedd cyfleusterau golchi dwylo a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael yn addas.

Roedd ystafell ddihalogi ddynodedig yn y practis gyda system briodol ar waith er mwyn cludo'r offer a oedd wedi'u defnyddio'n ddiogel rhwng yr ystafell ddihalogi a'r deintyddfeydd. Roedd staff wedi cael eu hyfforddi a'u hasesu i sicrhau eu bod yn gymwys mewn protocolau dihalogi ar gyfer offer y gellir ei aildefnyddio. Roedd profion cyfnodol yn cael eu cwblhau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Roedd y trefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff yn addas, ac roedd contractau ar waith ar gyfer gwastraff clinigol, amalgam, offer miniog, a deunyddiau peryglus eraill.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y practis yn 'lân iawn', a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn yn gyson.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod polisïau cyfredol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis, wedi'u hategu gan brosesau addas ar gyfer caffael, storio, trin a gwaredu cyffuriau. Gwelsom fod meddyginiaethau yr oedd angen eu cadw mewn oergell yn cael eu storio mewn oergell meddyginiaeth addas a bod gwiriadau tymheredd rheolaidd yn cael eu cynnal. Roedd cyffuriau ac offer brys yn y practis yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Roedd polisïau adfywio yn gyfredol ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant adfywio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y staff gofynnol hefyd wedi cwblhau hyfforddiant ar silindrau ocsigen. Roedd swyddogion cymorth cyntaf y practis wedi'u dynodi a'u hyfforddi, ac roedd citiau cymorth cyntaf ar gael.

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom fod y practis wedi penodi arweinydd diogelu dynodedig a bod y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol y dylent roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu i'r arweinydd. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant addas. Roedd polisi ysgrifenedig gyda gweithdrefnau ar waith ac roedd siartiau llif ar gael yn ystafell y staff er mwyn i'r staff eu dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y cyfarpar deintyddol yn addas ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir ac roedd trefniadau i reoli gwaith cynnal a chadw cyfarpar ac i ymateb i achosion o gyfarpar yn methu.

Gwnaethom nodi bod darlleniadau uchel o ddosau ymbelydredd a chasyn wedi cracio ar ben y tiwb pelydr-X wedi'u nodi yn ystod proses gwasanaethu arferol un o'r unedau pelydr-X. Dywedodd y gwasanaeth fod yr archwiliad critigol o'r uned wedi'i gwblhau ar yr adeg y cafodd ei gosod.

Cawsom wybod fod Goruchwylydd Diogelu rhag Ymbelydredd y practis wedi rhoi cyngor

y Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd ar waith, gan gynnwys addasiadau i osodiadau'r cysylltiad i sicrhau bod y cyfarpar yn gweithredu o fewn y paramedrau priodol. Roedd gorchuddion amddiffynnol untro hefyd yn cael eu defnyddio dros yr ardal yr effeithir arni er mwyn cefnogi mesurau atal a rheoli heintiau. Rhoddodd y practis dystiolaeth fod y trefniadau hyn yn dderbyniol i'r Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd. Cawsom wybod bod y practis yn bwriadu newid yr uned fel rhan o raglen diweddar cyfarpar tymor hwy.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom dystiolaeth fod canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol yn cael eu dilyn wrth roi triniaeth. Roedd y practis wedi rhoi Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol ar waith, gyda phosteri siart lif yn cael eu harddangos ym mhob deintyddfa a rhestrau gwirio ar gael yn ffolderi'r ddeintyddfa i staff gyfeirio atynt. Roedd y mesurau hyn yn cefnogi gofal diogel a chyson i gleifion.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deg claf a gwelsom fod manylion y claf, hanes meddygol ac opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi'n briodol. Gwelsom dystiolaeth fod y cofnodion ar gyfer siartiau sylfaenol llawn, archwiliadau o feinweoedd meddal a gwybodaeth hybu iechyd y geg yn cael eu cofnodi yn yr holl gofnodion y gwnaethom edrych arnynt. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai hepgoriadau yn y cofnodion:

- Nid oedd dewis iaith wedi'i nodi yng nghofnodion y cleifion. Gallai methu â nodi dewis iaith atal gofal cleifion effeithiol wedi'i deilwra at yr unigolyn
- Roedd dau gofnod ar goll o gofnodion archwiliadau periodontol sylfaenol
- Er bod y rhan fwyaf o'r cofnodion yn dangos dogfennaeth sgrinio am ganser, gwybodaeth am radiograffau a chael cydsyniad ar sail gwybodaeth, nid oedd un o'r cofnodion yn cynnwys y wybodaeth hon.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu manylion o'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau i AGIC a sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau'n gyson yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.

Effeithlon

Effeithlon

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i sicrhau bod effeithlonrwydd yn cael ei gynnal ar gyfer ansawdd y gofal. Dywedwyd wrthym fod disgwyl i ddeintydd ychwanegol a oedd yn darparu triniaethau'r GIG ddechrau cyflogaeth yn yr hydref, yr oedd disgwyl iddo gynyddu'r capasiti clinigol a gwella mynediad at ofal. Roedd rotas staffio'n cael eu

monitro i sicrhau bod cyflenwad digonol o staff yn cael ei gynnal, a gallai'r practis gael cymorth yn y grŵp corfforaethol ehangach pan oedd angen, gan helpu i gynnal parhad y gwasanaeth a chefnogi'r gofal a roddir i gleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff –

Dywedodd pob aelod o'r staff a wnaeth ymateb i holiadur AGIC wrthym petai angen gofal deintyddol ar ffrind neu berthynas, y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir yn y practis. Cytunodd pawb fod preifatrwydd ac urddas y claf yn cael ei gynnal ac mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod y practis yn lle da i weithio ynddo a bod ganddynt ddigon o adnoddau i gyflawni eu rolau.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

"Rydym yn dîm cryf iawn sy'n cydweithio'n dda."

"Rydym yn dîm gofalgarg, parod ein cymwynas a hapus iawn!"

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Mae Practis Deintyddol Chapel Street yn rhan o grŵp corfforaethol Rodericks Dental Partners sy'n gweithredu ledled Cymru a Lloegr. Rheolwr y practis oedd yn rheoli gweithrediad dyddiol y practis, gyda chymorth rheolwr cydymffurfiaeth yr ardal.

Gwelsom fod y trefniadau arwain a llywodraethu effeithiol yn briodol ar gyfer maint y gwasanaeth. Siaradodd y staff yn gadarnhaol am y cymorth a ddarperir gan y rheolwyr a gwnaethant ddisgrifio diwylliant o gyfathrebu a gwaith tîm agored.

Roedd cyfarfodydd tîm misol yn cael eu cynnal, gydag eitemau agenda'n cael eu rhannu ymlaen llaw. Roedd cyfarfodydd yn cael eu trefnu ar ddiwrnodau gwahanol i gael cymaint â phosibl i fynychu, ac roedd presenoldeb rhithwir ar gael pan oedd angen. Roedd cofnodion yn cael eu cofnodi, eu rhannu â'r staff drwy'r system Cydymffurfio â Deintyddiaeth a'u harddangos yn ystafell y staff.

Roedd y practis yn defnyddio system cydymffurfiaeth electronig i reoli polisiau, gweithdrefnau a dogfennaeth lywodraethu. Roedd hyn yn galluogi ar gyfer gwaith rheoli fersiynau, adolygiad staff o ddogfennau a monitro diweddariadau pwysig.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom fod digon o staff gyda chymwysterau a sgiliau addas yn gweithio yn y practis. Roedd gan yr holl staff clinigol gofrestrriad priodol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd y rotas staffio wedi'u cynllunio i gefnogi parhad busnes. Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu cwblhau cyn penodi'n ffurfiol i rolau ac unwaith y byddai'r aelod o staff yn y swydd byddai'n llofnodi hunan-ddatganiad o

gymeriad da yn flynyddol.

Dangosodd y staff hyblygrwydd yn eu rolau, gan gyflenwi wrth y dderbynfa ac yn yr ardaloedd clinigol pan oedd angen. Roedd trefniadau recriwtio, sefydlu a hyfforddi priodol ar waith, a gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol a phenodol i'r rôl a oedd yn berthnasol i'w cyfrifoldebau.

Roedd y practis yn hyrwyddo diwylliant agored, gyda'r staff yn gallu codi pryderon gyda rheolwyr drwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys proses codi llais sefydliadol a mynediad at Hyrwyddwr Rhyddid i Godi Llais.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis i annog cleifion i roi adborth am eu profiad o'r gwasanaeth. Gallai'r cleifion rannu adborth drwy flwch awgrymiadau a oedd wedi'i leoli yn y practis, a chawsom wybod bod awgrymiadau'n cael eu hadolygu'n wythnosol. Yn ogystal, roedd adborth digidol gan gleifion yn cael ei gasglu a'i adolygu'n fisol, gydag adroddiadau'n cael eu darparu i reolwr y practis eu goruchwyllo ac i gymryd camau gweithredu lle'r oedd angen.

Dywedwyd wrthym fod adborth gan gleifion yn cael ei drafod â'r staff ac yn cael ei adolygu'n ffurfiol bob chwe mis yn ystod cyfarfodydd y practis. Roedd hyn yn galluogi'r tîm i adlewyrchu ar brofiadau'r cleifion, nodi cyfleoedd dysgu ac ystyried unrhyw welliannau sy'n ofynnol i gefnogi datblygiad parhaus y gwasanaeth.

Roedd gweithdrefn gwyno ar waith i gefnogi'r gwaith o reoli pryderon a godwyd gan gleifion. Roedd y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn yr ardal aros ac roedd ar gael yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Roedd pryderon a chwynion a dderbyniwyd yn cael eu cydnabod gan reolwr y practis a'u mewnbynnu i daenlen er mwyn sicrhau y gellir dogfennu prosesau ymateb dilynol a nodi themâu a gododd ar gyfer y broses ddysgu yn y gwasanaeth. Roedd rheolwr y practis yn cael ei chefnogi yn ei rôl fel arweinydd cwynion y practis gan dîm cwynion y grŵp corfforaethol ehangach. Roedd gwersi a ddysgwyd o bryderon a chwynion yn cael eu rhannu â'r cleifion drwy hysbysiadau 'Dywedoch chi, Gwnaethom ni' yn ystafelloedd aros y practis a gallai'r staff hefyd ddefnyddio rhaglen cymorth allanol i gyflogaion.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu data a diogelwch gwybodaeth addas i gefnogi'r broses briodol o drin yr holl wybodaeth am gleifion a staff. Roedd rheolwyr y practis yn ymwybodol o amserlenni cadw a'r angen i gydymffurfio â'r rhain.

Roedd systemau addas ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth yn fewnol o fewn y practis

a gyda phartneriaid allanol. Roedd hyn yn cynnwys y defnydd o systemau digidol diogel.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod trefniadau effeithiol ar waith yn y practis i gefnogi gwaith gwella ansawdd. Roedd rhaglen o archwiliadau clinigol a gweithredol yn cael eu cynnal, gan gynnwys arolygon boddhad cleifion, atal a rheoli heintiau, presgripsiynu gwrthficrobaidd, radiograffeg a gwiriadau iechyd a diogelwch. Roedd canfyddiadau'r archwiliad yn cael eu hadolygu gan y tîm rheoli, gyda'r gwersi'n cael eu rhannu'n lleol ac ar draws y sefydliad ehangach drwy 'The Smile Hub bulletin'. Roedd y canfyddiadau'n cael eu trafod â'r staff ac yn cael eu defnyddio i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, gwelsom fod archwiliadau dilynol yn ailadrodd yr archwiliad llawn yn gyffredinol, yn hytrach na chanolbwyntio ar feysydd a nodwyd i'w gwella, a oedd yn cyfyngu ar allu'r practis i ddangos bod camau gweithredu penodol wedi bod yn effeithiol.

Gall y practis ystyried lle mae archwiliadau'n nodi meysydd y mae angen eu gwella, caiff archwiliadau dilynol wedi'u targedu eu cynnal er mwyn asesu effeithiolrwydd y camau gweithredu a gymerwyd ac i roi sicrwydd yr aed i'r afael â'r materion a nodwyd.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer ymgysylltu rhwng pencadlys y grŵp corfforaethol a phractisau lleol eraill. Helpodd hyn y practis i ddarparu gofal cydlynol o ansawdd da i gleifion a chynnal dull cadarnhaol o ddysgu a datblygu.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgwyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgwyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Chapel Street

Dyddiad yr arolygiad: 21 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau

Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â chydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Chapel Street

Dyddiad yr arolygiad: 21 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd gwybodaeth gyswllt ar gyfer cleifion preifat ar goll o'r bwrdd arddangos allanol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig arddangos gwybodaeth gyswllt i gleifion preifat sy'n ceisio gofal y tu allan i oriau agor y practis.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 6	Archebwyd poster newydd i gynnwys y rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau ar gyfer cleifion preifat yr oedd angen gofal brys y tu allan i oriau agor y practis arnynt.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
2.	Roedd angen trwsio'r wal yn ardal y landin i fyny'r grisiau. Roedd papur wal yn dod oddi ar y wal, ac roedd arwyddion fod lleithder yn dod i mewn o ochr gyffiniol yr adeilad teras.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff achos y lleithder a amheuir ei ymchwilio iddo ac y caiff gwaith adfer priodol ei gyflawni i gadw'r safle mewn cyflwr da.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 22	Mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo a bydd gwaith adferol yn cael ei archwilio yn seiliedig ar y canfyddiadau	Cydgysylltydd Cyfleusterau	Parhaus

3.	Gwnaethom nodi rhai hepgoriadau yng nghofnodion y cleifion: - Nid oedd dewis iaith wedi'i nodi yng nghofnodion y cleifion. - Roedd dau gofnod ar goll o gofnodion archwiliadau periodontol sylfaenol - Roedd dogfennau sgrinio am ganser, gwybodaeth am radiograffau a chael cydsyniad ar sail gwybodaeth ar goll o un o'r cofnodion.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu manylion o'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau i AGIC a sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau'n gyson yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20	Mae sgriniau pwrpasol ar gael ar nodiadau'r cleifion i gofnodi dewisiadau iaith ac unrhyw gymorth sydd ei angen. Rydym hefyd newydd gyflwyno cwestiwn dewis iaith ar ein ffurflenni hanes meddygol. Caiff templedi unigol a ddefnyddir i gefnogi cofnodion clinigol cynhwysfawr eu cwblhau yn unol â chanllawiau'r Gyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol (FGDP). Cynhelir archwiliadau blynyddol i nodi unrhyw hepgoriadau a chânt eu gweithredu'n brydlon, os bydd angen, gyda chymorth cynghorwyr clinigol yn y cwmni. Mae adborth wedi'i ddarparu i'r clinigwyr ac mae mesurau wedi'u rhoi ar waith gyda'r nod	Rheolwr y Practis Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau
----	--	--	--	---	---	---

				o atal digwyddiadau pellach.		
--	--	--	--	---------------------------------	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Rebecca Donne

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 20 Awst 2026